ATODLEN 6

Gorchmynion adran 97 a 102 o dan Ddeddf 1990

**9.** >Rhaid darllen rheoliad 17 fel pe bai—

(a) paragraff (1) wedi ei hepgor;

(b) paragraff (2) yn darllen—

“(2) Rhaid i’r corff cychwyn gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal leol sy’n nodi—

(a) enw a chyfeiriad y corff cychwyn;

(b) cyfeiriad neu leoliad a natur y datblygiad y cyfeirir ato yn y gorchymyn adran 97 neu’r gorchymyn adran 102 arfaethedig;

(c) bod copi o’r gorchymyn drafft ac unrhyw blan neu ddogfennau eraill sy’n mynd ynghyd ag ef, yn ogystal â chopi o’r datganiad amgylcheddol ar gael i aelodau’r cyhoedd edrych arno ar bob adeg resymol;

(d) cyfeiriad yn yr ardal leol lle mae’r dogfennau hynny ar gael i’r cyhoedd edrych arnynt, a’r dyddiad olaf y maent ar gael i’w gweld (sydd yn ddyddiad nad yw’n llai na 21 diwrnod yn ddiweddarach na’r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad);

(e) cyfeiriad (pa un a yw’r un fath â’r cyfeiriad a roddir o dan is-baragraff (d) ai peidio) yn yr ardal leol lle gellir cael copïau o’r datganiad;

(f) y gellir cael copïau yno cyhyd â bod rhai yn dal ar gael;

(g) os codir tâl am gopi, swm y tâl; ac

(h) y dylai unrhyw berson sy’n dymuno cyflwyno sylwadau ynglŷn â’r gorchymyn eu cyflwyno i’r corff cychwyn cyn y dyddiad a bennir yn unol ag is-baragraff (d).”;

(c) paragraff (3) wedi ei hepgor;

(d) ym mharagraff (4), bod “ceisydd” yn darllen “corff cychwyn”; ac

(e) paragraffau (6) i (9) wedi eu hepgor.